Wm (Rees)

DWY GERDD

DIDDANOL.

Hanes merch i Emprwr a roes ei llaw a'r Fâb i ffarmwr o *Blymwth* Sir, yr hwn oedd lawdwr; ac fel yr enilodd efe hi ai Gleddyf, drwy ymladd dan fywyd wrth oi chymyn ei Thad.

H Cyngor Gwraig iw Gwr i ochelyd meddwi yntau yn'addaw ei wneuthur.

TREFRIW,

Argraphwyd gan Dafydd Jones, 178[illegible]

Ar y meſur, Voice Love.

HOLL Iſieng&id *Cymru*
Gwrandewch ar fy ſtori,
Y modd i rwy' traethu ag i chwi'r gwir,
O hanes merch i *Emprwr* oedd uchel o gyſtwr,
Yn caru mâb i Ffarmwr o *Liymewith* Sir.

Ei ſerch a roes arno wrth ei weled yn dawnſio,
A hi oedd yn rhodio y man ar un lle,
Syrthiodd ei Chalon ac atto fe 'n union,
Nis gwyddai pwy ſoddion gael ſiarad ag e.

Gyrra genad atto a chyn mynd oddiyno,
Gan ddeiſyf arno a ſydde mor fwyn,
A dyfod yn ddiwid ag atti ryw 'chydig,
I 'Staſell barchedig i adrodd ei chwyn.

Ar mâb a ddae'n ddiwad ag eſo'r un genad,
I 'ſtaſell or eurad lle'r ydoedd lliw'r gwawn,
Meibion Arglwyddi yn diſgwyl am dani,
A hithe yn yſgorni ei cwmni nhw'n fawr.

Pan wela ſo *my Lady* dechreue gappio iddi,
Ag yno'r oedd glendid a haedda gael clod,
Y ſun a ddweuda wrtho yn ſuan dowch heibo,
Chwi ydi'r mab mwyra gerais erioed.

Mae'n ddrwg gen i *my Lady* 'ch bod chwitha ſelly
Ag wedi rhoi 'ch ffanſi ar fab cm Siwt i,
Meibion Marchogion o geraint ir *Goron*,
Sydd ur ion o ſoddion gyfaddas i chwi.

Pe'i gwyddwn i *my Lady*'ch bod chwitha felly
Ag wrthai yn traethu y gwir yn bur ffri,
Mi 'mrwymwn yn ddiwid i'ch caru'n garedig
Mi gollwn y mywyd cyn collwn i chwi.

A modrwy cwitansa ag iddo fo rhoesa,
Ei *Theimws* ai *Pherla* yn burlwys heb wâd,
Cewchwithau ar gyhoedd seddianu ar frenhinoedd
A nesu ar ynysoedd at neuodd fy Nhâd.

Eich Tâd 'rwy'n ei ofni ai ffrins ai holl gwmni,
A edrych yn 'stydi o gwmpas ei Stât,
A mi nid wyf bwrpas o soddion cyfaddas,
Nag agos nag addas i Deyrnas eich Tâd.

Pedfawn heb un Ddime oi werthfawr aur wrthie
Nai diroedd nai bethe nai radde nai rôdd,
Pedfawn yn meddianu holl *Loegr* a *Chymru*,
Mae f'wllys i felly ich meddu run modd.

Ei Thad hi pan glywodd yn ddygn a ddigiodd
Ag adre se gyrchodd dansonodd ei sun,
Iw chadw'n guddiedig mewn Strafell barchedig
I fod yno'n unig heb neb ond ei hun,

Ar mâb a roe 'n union at weision y *Goron*,
Mai trwm oedd ei galon ymadel ag un,
O gariad lliw 'r eira ai rhoes mewn blindera
I fynd i Rysela ai gledda ar ei glyn.

Ffarwel fo i *Loegr* rhâid myned ar syder,
I wlad *Gibralter* i mae llawer mewn llid,
mina

A mina rwy'n fodlon o gariad iw gwenfron,
I dywallt gwaed gwirion or galon i gâd.

Ryw noswaith cyn ymadel se nesodd yn isel
Ag at y fun dawel roi trefal ar drô,
Fe aeth at i Stafell i spio drwy 'sgasell
Fo'i gwela naws diwall yn eiste ar ei 'stôl.

Pan wybu hi fod o yno yn suan codai atto,
Ni fedrai hi ond wylo yn waeledd ei gwêdd,
Ag ynte cyn waeled yn curio oi gwir gariad,
Bob dŷdd mewn disgwyliad am fyned iw lêdd,

Mawr na chawse gê-ad ar Seren i siarad,
Er maint oedd ei gariad ai bwriad yn bur,
Ollwn hyd allan o foddion ni feiddian,
Gan gloia a barie a dorre fel dur.

Er maint oedd ei dymder ai galon mewn galar,
Fo fentrodd iw siamber oedd glacar wen glyd,
Ei chadw hi 'n gefnog roedd tri o wyr arfog,
A rhain iddo'n llidiog afrowiog o fryd.

Meula *my Lady* gan draethu wrth y rheini,
Yngwaed a geilf golli om calon yn lli,
Cyn caffo hi ymadel mi brofa'r ymrafael,
Mi gollaf fy hoedl cyn collaf fi hi.

A rheini pân glowson nhw aethon yn union,
I adrodd y n'w'ddion roeth union iw Thâd
Ai Thad a ddwedda ecnif ymladd yn gynta,
Pwy bynnag ai henilla mi ai rhodda hi'n rhad,

Doe Dduwc o *Fiwmacco* mewn cyfun iw cheiſio,
Ai fryd ar ymgomio yn gymwys a hi,
Oes neb a dry allan am aur nag âm arian,
I ynill y Seren ar feinwen âm fi.

Y Sais o *Virginia* ar Duwc a gyduna,
Am ddwy fil o bunne mi fentre fy hun,
Ai ſelio nhwimi os bydda byw gwedi,
Mi dreiaſi am dani pwy bynnag yw'r dyn,

Pan glybu liw'r hinon wen addas y newyddion,
Doe *Giwpit* iw Chalon ai dwyfron yn dôſt,
Syrthio ar ei glinie yn glaear dan gloia,
Ei bardwn a fegie gofyne iddo foſt.

Ai Chariad a ddyweda cyſurwch liw'r eira,
Yn Enw Duw 'n benna gwahana fy hun,
Ar Impin glan gweddol ymladdodd yn wrol,
Fo'i rhoddodd ô'n farwol gyferbyn ar fun.

Felly fe ynille hi 'n glir hefo 'i Gledde,
Ai 'Thad iddo ynte ai rhodde hi 'n rhwydd,
Oddi yno 'n ddi-gynwr ſo gâdd fynd yn *Emprwr*,
Yn lle bod yn Sawdwr yn iſel ei ſwydd.

Iſiengtid y gwledydd wel dyna i chwi rybydd
Os cerwch eich gilydd fawr beunydd drwy'r byd
Duw Tad ond ei geiſio a ſylwedd Duw Seilo,
Efe eill eich ſafio ach cario o bob cur.

Pob

Pob feren gyſurus ſy'n raenio 'n yr Ynŷs,
Bydded anoethus na hoenus na hên,
Na rodded neb hefyd ei galon mewn golud,
Ond meddwl am ei 'nwylyd bob munud *Amen*,

Anawdd ymadel.

FY anwyl wych-briod wr hynod dewr hael,
Gwrandewch a deallwch y gellwch chwi gael
Cyngor pur ffyddlon yn union gan î,
Sy ag 'wllys dâ 'n waſtad a Chariad i chwi,

Dywedwch anwylyd y peth ſy'n eich bryd,
Rhowch allan êich 'wllys yn hwylus o hyd,
Pan ſyddo'ch yn ſiarad mewn cariad mwyn cu,
Myſi ach gwrandawa or uſudda ar a ſu,

Eich gweled yr ydwy a hynny wyr rhai,
Fel ae yr ydych yn ſynych ar fai,
Yn ymdroi mewn diodydd anedwydd y nôd,
Ar ffordd ich andwyo ach clwyfo yn eich clod

Dy feddwl ſy nghowled gad glywed yn glir,
Na ddywed ddim pellach neu amgenach na'r gwir
Ac byth o hyn allan om bodd nid af fi,
I wneuthur ſyth niwed na cholled i chwi,

Myſi ſy o ran cariad yn ſiarad yn ſiwr,
Ac en eich daioni ich cynghori chwi Ngŵr,

nid

Nid bychan mor niwed ar golled a gewch,
I galyn oferwyr ydi synwyr os ewch.

Cybydd ni byddaf attebaf i ti,
Fy myd yn gysurus fy oreu gan i,
A chadw cymdeithas mewn urddas yn iawn,
Gyda rghymdeithion da, union eu dawn.

Am ddim a fo gweddol a Duwiol a da,
Bodloni i chwi wneuthud fy anwylyd a wna,
Ond yfed yn ofer fydd egr fwydd ddrwg,
Eidh Jechyd er alloch oddiarnoch a ddwg.

Dod di dy laeth enwyn ir mochyn ar maidd,
Tybied yr ydwyf fod Cwrw brâg Haidd,
I'm cadw 'n ddyn llawen yn well ar fy lles,
A fiaiad di a fynech ni fyddi ddim nes.

Am yfed peth weithie or gore ydi'r gwaith,
Ich erbyn nî byddwn ni chwynwn ni chwaith,
Pei medrech ddwad adre or Dafarn mewn pryd,
Ond gwaeth ydyw medd-dod na dim yn y byd.

Dy gyngor da ydyw a dwedyd y gwir,
Mi ddywedaf i tithau fy meddwl yn glir,
Troi etto yn ŵr sobr fydd fawr yn fy mryd,
Trwy nerth y Gorucha tra byddai 'n y byd.

Yr Arglwydd ach nertho i gofio am y gair,
A cheisio cywiro rhag ffaelio y ffair,

O

O gadw'ch addewid os byddwch chwi fwyr,
Gwna fina ar fy nghnie fy ngore Tchwi Ngwr,

Yr ydwy 'n cydnabod fy mod ar fy mai,
Yn gydymaith rhy helaeth a hynny a wyr rhai,
I wragedd Tafarnau oedd ddrwg ar fy lles,
O'm Harian rhoi hawer yn ofer a wnes.

Nid af cyndyn yched i mwy'n tybied iw Tai,
Os gweria byl lawer yn hw gan genyf lai,
Iw maglau hai hwydau ni redaf mor rhwydd,
Iw porthi bwy iddo gla gwrelog yn oi fwydd,

Dod di dy laeth enwyn ir mochyn ar maidd,
Rees Ellis ai Cant
I'm cadw'n ddyn llawen yn well ar fy lles,
A llarad di a fynech ni fyddi ddim mes.

DIWEDD.

MUSEUM